Afasic CYMRU
voice for life
llais ar gyfer bywyd

Charity No. 1045617

Helpu eich plentyn oed ysgol ddeall a defnyddio geiriau

CRONFA LOTERI FAWR BIG LOTTERY FUND

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Gelwir y cyflenwad o eiriau rydych chi'n eu gwybod, eu deall a'u defnyddio yn eirfa.

Mae cefnogi eich plentyn i adeiladu ar y nifer a'r amrediad o eiriau y mae'n eu gwybod ac yn eu defnyddio yn helpu gyda:

- ✓ dealltwriaeth
- ✓ siarad
- ✓ ymuno mewn sgyrsiau
- ✓ datblygu'r gallu i feddwl a dysgu

Mae'n nodweddiadol i blant ddysgu geiriau trwy wrando a siarad. Maen nhw'n clywed y geiriau o'u cwmpas ac yn ymarfer eu defnyddio trwy siarad.

Mae geiriau llafar ac ysgrifenedig yn bwysig. Mae plant sydd â geirfa eang yn deall mwy am yr hyn maen nhw'n ei glywed ac yn ei ddarllen.

Yn nodweddiadol, disgwylir i blant hŷn ddysgu mwy a mwy o eiriau *trwy* ddarllen ac ysgrifennu. Fodd bynnag, er bod darllen yn medru annog datblygiad geirfa, bydd plant hŷn yn dal i fod angen cefnogaeth i ddysgu geiriau trwy siarad, yn enwedig geiriau mwy haniaethol, e.e. trwy, pob, cyn, pob un, ychydig

Os ydych chi'n pryderu am siarad eich plentyn, ewch i gael cyngor gan therapydd iaith a lleferydd cymwysedig.

Darllenwch y daflen hon i gael syniadau cyffredinol ynglŷn â ffyrdd y gallwch helpu eich plentyn adeiladu medrau geirfa.

Dysgu geiriau newydd

Pan fydd plentyn yn dysgu gair newydd, mae'n cadw gwybodaeth ynghylch y synau yn y gair, ystyr y gair a sut i ddefnyddio'r gair wrth siarad. Gall gwybod hyn ein helpu ni i helpu'r plant ddysgu geiriau yn fwy effeithiol.

Yn raddol, mae pob gair a ddysgir yn cael ei gysylltu mewn rhwydwaith gyda geiriau eraill. Mae'r cysylltiadau hyn rhwng geiriau yn bwysig iawn ac maen nhw'n cynnwys y cysylltiadau rhwng geiriau llafar a geiriau ysgrifenedig.

Mae rhai plant yn ei chael hi'n anodd 'dod o hyd' i'r gair maen nhw'n bwriadu ei ddweud. Mae'n bwysig gadael mwy o amser mewn sgwrs pan fydd eich plentyn yn cael y profiad hwn. Pan fydd oedolion yn cael y profiad hwn, byddwn yn dweud ei fod fel petai gair ar flaen ein tafod!

Helpwch eich plentyn i ddeall a defnyddio geiriau.
Addaswch awgrymiadau i gyd-fynd ag oed a chyfnod datblygiad eich plentyn.

Mae chwilota a dod o hyd i wybodaeth am eiriau newydd yn ffordd dda o gefnogi siarad a dysgu eich plentyn gartref.

Sylwch ar eiriau newydd pan fyddwch chi'n gwrando, yn darllen, yn sgwrsio ac yn gwylio ffilm neu raglen deledu. Siaradwch am y gair newydd a chwilio beth mae'n feddwl. Mae llyfrau'n ffynhonnell dda o eiriau newydd, boed y rheiny'n ffuglen neu'n llyfrau ffeithiol. Edrychwch pa eiriau sy'n gysylltiedig â phwnc y dosbarth yn yr ysgol.

Siaradwch am y synau yn y gair

Â pha sŵn mae'r gair yn dechrau? Faint o sillafau neu glapiau sydd ynddo? Â beth y mae'n odli? Bydd hyn yn helpu eich plentyn i ddweud y gair, a maes o law, ei sillafu a'i ysgrifennu. E.e.: "Cyn" Mae'n dechrau gyda 'c'; mae'n air un sillaf. Mae'n odli gyda 'hyn', 'tynn'.

Meddyliwch am ffordd gymwys i blant o egluro neu ddangos beth mae gair yn ei olygu. Cysylltwch eiriau â bywyd go iawn neu brofiadau ymarferol. Gall gweithgaredd gwaith llaw/coginio helpu eich plentyn i gofio beth y mae gair yn ei feddwl a sut i'w ddefnyddio. E.e. "Ychydig" – mae hwn yn air sy'n golygu nifer fach ond mwy nag un. "Rydym angen ***ychydig*** o fadarch ar gyfer y pitsa."

Cysylltwch air newydd â geiriau mae eich plentyn yn eu gwybod yn barod. Gallwch gyfoethogi'r cysylltiadau rhwng geiriau trwy gysylltu geiriau ysgrifenedig â geiriau llafar a syniadau mae eich plentyn yn eu gwybod yn barod. Er enghraifft: "Mae 'anferth' yn golygu mawr iawn!"

Cael hwyl gyda geiriau!

Tynnwch lun o'r ystyr! Actiwch air! Chwiliwch am ddelwedd ar-lein. Gwnewch fap geiriau. Dewiswch air yr wythnos!

Chwaraewch gêm fel dyfalu gair trwy gliwiau:

a) Mi wela i â'm llygad bach i: defnyddiwch gliwiau disgrifio, e.e.: Mi wela i â'm llygad bach i rywbeth sydd ag **ychydig** o afalau ynddo.
b) Gwnewch groesair a dyfeisiwch eich cliwiau eich hun ar gyfer geiriau pwnc ysgol! www.puzzlemaker.com

Anogwch eich plentyn i sylwi ar eiriau y mae wedi eu clywed o'r blaen ond nad yw'n sicr ohonyn nhw.

Canmolwch eich plentyn am ofyn neu edrych beth mae gair yn ei olygu. Gadewch iddo wybod ei bod hi'n iawn gofyn neu ddweud 'Dwi ddim yn deall'. Hefyd, dangoswch i'ch plentyn sut i ddefnyddio cliwiau a rhannau o eiriau i'w helpu i ganfod beth yw ystyr gair, e.e.: mae 'di' ar ddechrau gair yn ei newid i'r ystyr gwrthgyferbyniol....**di**niwed, **di**ofal, **di**feddwl, **di**-gwsg.

Siaradwch â'ch plentyn ynghylch beth i'w wneud ar ôl dod o hyd i air newydd. Gadewch i'ch plentyn wybod ei bod hi'n iawn gofyn i oedolyn neu ffrind. Dangoswch i blentyn hŷn sut i ddefnyddio geiriadur, thesawrws a/neu adnodd ar-lein www.vidtionary.com

Dewch yn ôl at eiriau rydych chi wedi bod drostyn nhw'n barod. Mae ailadrodd ac adolygu yn rhan bwysig o ddysgu a chofio geiriau newydd.